Adran Gwaith a Phensiynau

# Sut i wneud cais am **Gredyd Cynhwysol**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **UC4ERW** 09/22

# Cynnwys


1

**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2




**Gwneud cais am Gredyd Cynhwysol**

Tudalen 6

3




**Cymorth ychwanegol pan fyddwch yn gwneud cais**

Tudalen 13

4



**Cysylltwch â ni**

Tudalen 16

# 1 Cyflwyniad

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal o'r Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'n helpu i dalu'ch costau byw bob dydd.

Efallai y gallwch gael Credyd Cynhwysol os:

- Ni allwch weithio
- Rydych chi allan o waith
- Rydych chi mewn gwaith ac mae gennych enillion isel.

Bydd y mwyafrif o geisiadau budd-dal newydd ar gyfer Credyd Cynhwysol.




Dylech wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar-lein.

Ewch i: www.gov.uk/cymraeg

Chwiliwch am **'Credyd Cynhwysol'.**





Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych **sut i wneud cais** am Gredyd Cynhwysol.




Dylech **wirio yn gyntaf a allwch wneud cais** am Gredyd Cynhwysol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllaw Hawdd i'w Ddlarllen – **'Pwy all wneud cais am Gredyd Cynhwysol'.**




Dylech hefyd wirio beth fydd ei angen arnoch **cyn i chi wneud cais** am Gredyd Cynhwysol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllaw Hawdd i'w Ddarllen – **'Cyn i chi wneud cais am Gredyd Cynhwysol'.**

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Gredyd Cynhwysol, ewch i [www.gov.uk/cymraeg](http://www.gov.uk/cymraeg)

Chwiliwch am **'Credyd Cynhwysol Hawdd i'w Ddarllen'**.

# 2 Gwneud cais am Gredyd Cynhwysol




Os ydych yn meddwl y gallwch gael Credyd Cynhwysol, dylech wneud cais ar-lein.




Ni allwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol a chredydau treth ar yr un pryd.




Os ydych yn cael credydau treth, byddant yn dod i ben pan fyddwch chi neu'ch partner yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol.




Mae budd-daliadau eraill a fydd yn dod i ben pan fyddwch chi neu'ch partner yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol.





Mae'r rhain yn cynnwys:

- Budd-dal tai
- Cymhorthdal incwm.




- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm.





I wneud cais am Gredyd Cynhwysol, bydd angen i chi sefydlu cyfrif ar-lein.

**28**

**diwrnod**

Pan fyddwch wedi sefydlu'ch cyfrif, mae gennych **28 diwrnod** i wneud cais am Gredyd Cynhwysol.


Rhaid i chi gwblhau eich cais o fewn yr amser hwn.




Os ydych wedi gwneud cais am Gredyd Cynhwysol o'r blaen, bydd angen i chi wneud cais newydd ar-lein.

Gallwch wneud hyn drwy fewngofnodi i'ch cyfrif Credyd Cynhwysol.

I gael rhagor o wybodaeth am gredydau treth, Credyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill, ewch i www.gov.uk/how-tax-credits-affect-other-benefits




Efallai bod gennych anabledd sy'n golygu na allwch ddefnyddio cyfrifiadur.



Gallwch gysylltu â llinell gymorth Credyd Cynhwysol os yw hyn yn berthnasol i chi.

Rhestrir manylion y llinell gymorth ym mhennod 4 **'Cysylltwch â ni'**, ar dudalen 16.



Os ydych yn byw gyda'ch partner, mae'n **rhaid** i chi wneud cais fel cwpl.

Nid oes angen i chi fod yn briod.



Bydd angen i'ch partner sefydlu cyfrif hefyd.



Efallai y bydd angen i chi ffonio llinell gymorth Credyd Cynhwysol i drefnu cyfweliad gydag **anogwr gwaith**.

**Esboniad**

Bydd **anogwr gwaith** yn eich helpu i:

- Gwella eich sgiliau
- Eich paratoi ar gyfer mynd yn ôl i'r gwaith.

Gallai hyn gynnwys hyfforddiant neu sut i ysgrifennu CV.



Byddwch yn cael gwybod os oes angen i chi wneud hyn ar ôl i chi wneud cais.




Os gofynnir i chi fynd i gyfweliad rhaid i chi fynd.

Ni fyddwch yn cael Credyd Cynhwysol os na fyddwch yn mynychu'r cyfweliad.

## Os oes gennych gyflwr iechyd neu salwch



Efallai y bydd angen i chi gael apwyntiad a elwir yn **'Asesiad Gallu i Weithio'**.



Pwrpas eich asesiad yw darganfod sut mae eich cyflwr iechyd neu salwch yn effeithio arnoch wrth weithio.

I gael rhagor o wybodaeth am gyflyrau iechyd, anabledd a Chredyd Cynhwysol ewch i www.gov.uk/cyflyrau-iechyd-anabledd-credyd-cynhwysol

## Os ydych chi'n agosáu at ddiwedd eich oes

**12**
**mis**


Efallai y byddwch yn cael arian ychwanegol ar gyfer Credyd Cynhwysol os ydych yn agosáu at ddiwedd eich oes ac yn debygol o fod â 12 mis neu lai i fyw.



Rhowch y wybodaeth hon i ni pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol.

I gael rhagor o wybodaeth am gael budd-daliadau os ydych yn agosáu at ddiwedd eich oes, ewch i www.gov.uk/budd-daliadau-diwedd-oes

# 3 Cymorth ychwanegol pan fyddwch yn gwneud cais



Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, gofynnwch ar unwaith.




Gorau po gyntaf y byddwch yn gwneud cais, y cynharaf y byddwch yn cael eich taliad cyntaf.

cyngor ar bopeth

Help i Wneud Cais

UC Credyd Cynhwysol

Mae dwy ffordd o gael help i wneud cais am Gredyd Cynhwysol:

- Cymorth i Wneud Cais
- Cysylltu â ni gan ddefnyddio Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol.

# Help i Wneud Cais




Mae Help i Wneud Cais yn wasanaeth rhad ac am ddim gan Cyngor ar Bopeth.

Gallant eich cefnogi pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol.



Byddant yn eich cefnogi yr holl ffordd, o'ch cais ar-lein hyd at eich taliad llawn cyntaf.




Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw un arall.




Byddwch yn cael cymorth gan gynghorwyr hyfforddedig.



Gallant eich cefnogi gyda phethau fel:

- Cael tystiolaeth ar gyfer eich cais
- paratoi ar gyfer eich apwyntiad cyntaf yn y ganolfan gwaith.



Mae sut rydych yn cysylltu â Help i Wneud Cais yn dibynnu ar ble rydych yn byw.


Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, ewch i
www.citizensadvice.org.uk/helptoclaim/

Os ydych yn byw yn yr Alban, ewch i
www.cas.org.uk/helptoclaim

# 4 Cysylltwch â ni





Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cysylltu â Chredyd Cynhwysol ar-lein.





Efallai bod gennych chi anabledd sy'n golygu na allwch ddefnyddio cyfrifiadur.



Os na allwch wneud cais ar-lein, **ffoniwch linell gymorth Credyd Cynhwysol**.




Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Ffôn: **0800 328 5644**

Ffôn testun: **0800 328 1344**



Iaith Gymraeg: **0800 328 1744**



Os na allwch glywed na siarad ar y ffôn gallwch ddefnyddio Relay UK:

**18001** yna **0800 328 5644**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, efallai gallwch chi ddefnyddio'r **Gwasanaeth Cyfnewid Fideo** (a elwir VRS).

I gael rhagor o wybodaeth am bwy i gysylltu, ewch i
www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol

Am fwy o wybodaeth hawdd ei darllen am Gredyd Cynhwysol, ewch i
www.gov.uk/cymraeg

Chwiliwch am **'Credyd Cynhwysol Hawdd i'w Ddarllen'.**